**LC346**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Cynllun Grantiau Gwastraff Fferm (Parthau Perygl Nitradau) (Cymru) 2001**

**Y Cefndir**

Mae'r Cynllun hwn yn darparu ar gyfer rhoi grantiau mewn perthynas â busnesau amaethyddol mewn parthau perygl nitradau. Mae'r grant yn daladwy mewn perthynas â chyfleusterau ar gyfer ymdrin â gwastraffoedd fferm penodol.

Mae darpariaeth i'r un perwyl wedi'i gwneud ar gyfer Lloegr yn OS 2001/2911 a ddaeth i rym ar 31 Hydref 2000.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

**Sylwadau Cyffredinol**

Byddai'n ddymunol petai'r pwyntiau sydd wedi'u nodi isod ynglŷn â'r Nodyn Esboniadol ac ynglŷn â'r troednodiadau yn cael eu cywiro. Gellid cynnwys y materion hyn mewn Memorandwm Cywiriadau os dyna'r dymuniad.

**Nodyn Esboniadol**

Nid yw'r dyddiad 30 Tachwedd 2000 yn y pedwerydd paragraff yn gywir. Yn ôl pob golwg mae wedi'i gopïo o'r Nodyn Esboniadol i Gynllun Lloegr.

**Y Rhaglith**

Mae'n ymddangos nad yw'r datganiad yn nhroednodyn (a) fod Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau 1999 wedi trosglwyddo i'r Cynulliad Swyddogaethau'r “Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd” o dan adran 29.  Credir mai un o swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn union cyn datganoli, mewn perthynas â Chymru, oedd swyddogaeth gwneud cynllun o dan adran 29.

**Paragraff 2(1)**

Mae angen troednodyn ar gyfer y rheoliadau y cyfeirir atynt yn y diffiniad o “slyri”.

Yn y diffiniad o “parth perygl nitradau” byddai wedi bod yn fwy o gymorth i gyfeirio at Reoliad 3 yn hytrach na Rheoliad 2(1).  Y cyfan y bydd person sy'n cyfeirio at y diffiniad yn Rheoliad 2(1) yn ei ddarganfod yw'r ffaith bod hwnnw'n eu cyfeirio at Reoliad 3.

Mae angen troednodyn ar gyfer y rheoliadau y cyfeirir atynt yn y diffiniad o “parth perygl nitradau”.

Er ei bod yn ddiamau y bydd defnyddwyr yn rhagdybio mai ystyr “Cynulliad Cenedlaethol” yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'n arferol cynnwys diffiniad.

**Paragraff 7**

Nid yw'r troednodyn yn gywir.

**Llofnod**

Nid yw troednodyn (b) wedi'i gwblhau yn y testun Saesneg.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

30 Hydref 2001